



Eglurhad

Mae'r rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn cydnabod pa mor bwysig yw hi bod partneriaethau bwyd a strategaethau bwyd lleol sy'n seiliedig ar leoedd yn adlewyrchu'r cymunedau a'r sectorau niferus y maen nhw'n eu cynrychioli. Mae rhaglen y SFP yn mabwysiadu system fwyd gyfan ac yn gweithio ar draws sectorau sy'n anelu at ymgorffori'r ystod o wahanol safbwyntiau, materion a heriau sy'n wynebu pobl leol, sefydliadau a busnesau. I wneud hyn mae partneriaethau bwyd wedi ymgymryd â gwahanol weithgareddau i gasglu gwybodaeth gan bobl, sefydliadau a busnesau yn eu systemau bwyd.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Arolygon bwyd
- Mapio bwyd cymunedol
- Uwchgynadleddau bwyd
- Grwpiau ffocws bwyd

Mae pob un o'r gweithgareddau hyn – sy'n cael eu hesbonio mewn man arall yn y Pecyn Cymorth hwn – yn ymgorffori prosesau cyfranogol sy'n ceisio casglu gwybodaeth a meithrin dealltwriaeth o wahanol safbwyntiau. Eu nod hefyd yw hwyluso ymgysylltiad a chyfranogiad rhanddeiliaid o wahanol grwpiau (yn enwedig grwpiau ymylol) a chymunedau yn y broses o ddatblygu a chyflawni strategaeth bwyd lleol.

Bydd y canllaw hwn am **Weithdy Grŵp Bwyd** yn canolbwyntio ar brosesau cyfranogol y gellir eu defnyddio i ymgysylltu a chynnwys grwpiau a chymunedau i ddatblygu a chyflawni partneriaethau bwyd a strategaeth fwyd. Bydd y canllaw yn mynd y tu hwnt i ymgynghoriad cychwynnol y grwpiau i ddeall eu safbwyntiau ar faterion a heriau drwy awgrymu sut gellir strwythuro a threfnu grwpiau a sut y gallan nhw gyfrannu at gynllunio a chyflawni strategol parhaus. Mae'r SFP yn benodol wedi cydnabod pwysigrwydd cynnwys lleisiau cymunedau ymylol sy'n agored i niwed mewn partneriaethau bwyd, gan gynnwys unigolion sy'n wynebu tloidi bwyd.

Strwythur a Threfniadaeth y Grŵp Bwyd

Gallai grŵp bwyd gynnwys ystod o unigolion o ddemograffig penodol e.e. pobl hŷn neu o gymuned ddaearyddol benodol e.e. cymdogaeth. Efallai y bydd rhai grwpiau bwyd wedi'u sefydlu'n wreiddiol fel grwpiau cymorth i ymateb i argyfwng bwyd brys ond sydd wedi symud ymlaen i drafod amrywiaeth o faterion bwyd yn eu cymuned. Efallai bod **Grŵp Ffocws Bwyd** wedi penderfynu eu bod eisiau parhau i gwrdd. Efallai y bydd '**grwpiau bwyd**' neu 'grwpiau bwyd cymunedol' â chysylltiad parhaus â datblygiad y strategaeth fwyd.

Efallai y bydd grwpiau bwyd yn cwrdd unwaith y mis ac yn dod at ei gilydd mewn lleoliad cymunedol ac yn trafod materion bwyd yn fanylach yn ogystal â gwneud cynlluniau i weithredu'n lleol.

Gall lleisiau'r grwpiau bwyd hyn fwydo i mewn i'r bartneriaeth fwyd a chyfrannu at gynllunio strategol. Gallan nhw, er enghraifft, fod yn rhan o'r broses o wirio nodau, amcanion a champau gweithredu'r strategaeth fwyd sy'n dod i'r amlwg.

Adnoddau a Gweithgareddau

Wrth i grwpiau bwyd ennill eu plwyf, yr adnoddau a'r gweithgareddau a allai fod yn ddefnyddiol yw'r rhai sy'n dechrau edrych ychydig yn fanylach ar y materion.


Gwerthusiad 'H'

Y tu hwnt i ddull continwmm neu linell safonol (gweler ymarfer sbectrwm yn y canllaw **Grŵp Ffocws Bwyd**) sy'n galluogi cyfranogwyr i leoli eu hunain ar hyd llinell o bosibiliadau, mae Gwerthusiad H yn galluogi cyfranogwyr hefyd i nodi'r ffactorau positif a negyddol sy'n dylanwadu ar eu lleoliad ar y llinell. Trwy broses sydd wedi'i hwyluso, gellir defnyddio hyn fel ffocws i drafod yr hyn sydd angen digwydd i adeiladu ar ffactorau positif a'u cryfhau ac i oresgyn neu fynd i'r afael â ffactorau negyddol er mwyn cefnogi amcan cyffredinol. Mae'r adnodd hwn yn arbennig o ddefnyddiol fel cam cyntaf y broses o gynllunio camau gweithredu. I ganiatáu trafodaeth briodol, dylai'r hwylusydd ganiatáu o leiaf awr a hanner i gwblhau Gwerthusiad H.

Beth i'w wneud:

- Mae'r hwylusydd yn gofyn cwestiwn i'r grŵp sy'n ymwneud â'r mater sy'n cael ei archwilio gyda'r cwestiwn wedi'i ysgrifennu ar dop y wal, bwrdd neu ddalen fawr o bapur e.e. 'Pa mor hawdd yw hi i gyflenwi bwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n gynaliadwy i'r ddinas?'
- Caiff llinell lorweddol ei thynnu ar draws canol y gweithfan i gynrychioli'r continwmm barn ar y cwestiwn e.e. Hawdd i Anodd
- Rhoddir sgwariau gludiog a beiros i bob cyfranogwr a gofynnir iddyn nhw ystyried eu hymateb i'r cwestiwn a ofynnwyd.
- Yn ogystal â meddwl ble maen nhw ar y llinell, gofynnir i gyfranogwyr ystyried ac ysgrifennu ar eu sgwariau y ffactorau positif a negyddol sy'n egluro eu safle ar y llinell. Ysgrifennwch un ffactor (negyddol neu positif) fesul sgwâr gludiog.
- Unwaith y bydd yr holl gyfranogwyr wedi ychwanegu eu nodiadau at yr arwyneb gwaith, caiff pob ymateb ei drafod gyda phawb yn cael cyfle i egluro eu safbwynt.
- Mae'r ffactorau positif a negyddol ynghlwm wrth linellau fertigol o'r naill ben i'r llall o'r continwmm (Felly'r H). Gweler y diagram isod.
- Yna gellir clystyru ffactorau a nodi a dadansoddi themâu cyffredin e.e. beth sydd angen digwydd i oresgyn y ffactor negyddol hwn?' 'Sut gallwn ni gryfhau'r ffactor positif hwn?'

Mae'r adnodd gwerthusiad H yn arbennig o effeithiol pan fydd amrywiaeth eang o safbwyntiau ar fater penodol e.e. os yw pobl o gefndiroedd, sectorau gwahanol neu â gwahanol fathau o rôl.



(Diagram yn dangos Gwerthusiad H ar waith gyda sgwariau 'post it' i nodi ffactorau positif a negyddol allweddol)

Gwirio Datganiad Allweddol

I archwilio materion a safbwyntiau yn fanylach, gall fod yn ddefnyddiol gwirio ymatebion cyfranogwyr i ddatganiad allweddol fel ysgogiad ar gyfer trafodaeth bellach. Gellir defnyddio'r dechneg hon hefyd i nodi a chadarnhau canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg mewn grŵp.

Beth i'w wneud:

- Paratowch ddatganiad a fydd yn mynd at wraidd y mater sy'n cael ei drafod e.e. 'Mae'n hawdd prynu deiet iach'
- Ysgrifennwch hyn ar wal neu ddarn o bapur fel y gall pawb sy'n cymryd rhan ei weld yn glir.
- Tynnwch lun 2 flwch / swigen oddi tano, un sy'n dweud 'CYTUNO' ac un sy'n dweud 'ANGHYTUNO'; O dan y blychau hyn, gwnewch flwch mawr gyda'r pennawd 'Sylwadau'.
- Rhowch ddotiau gludiog a sgwariau 'post-it' i'r holl gyfranogwyr.
- Gofynnwch i'r cyfranogwyr ystyried eu hymateb i'r datganiad ac i roi dot gludiog yn y blwch perthnasol – naill ai CYTUNO neu ANGHYTUNO.
- Gofynnwch i gyfranogwyr feddwl pam eu bod yn cytuno neu'n anghytuno ac ysgrifennwch sylw yn y Blwch Sylwadau isod.
- Trafodwch y cydbwysedd cyffredinol rhwng CYTUNO ac ANGHYTUNO.
- Chwiliwch am gonsensws / anghytundebau a thrafodwch wahaniaethau yn yr adrannau sylwadau.

MAE'N HAWDD PRYNU DEIET IACH	
CYTUNO	ANGHYTUNO
SYLWADAU	

(Diagram sy'n dangos diwyg yr ymarfer Gwirio Datganiad Allweddol)

Gwirio Nodau ac Amcanion y Strategaeth Fwyd

Gall fod yn ddefnyddiol gwirio nodau, amcanion a champau gweithredu'r strategaeth fwyd sy'n dod i'r amlwg gyda grwpiau bwyd. Gall hyn gynnwys rhannu nodau, amcanion a champau gweithredu drafft a gofyn pa mor bwysig y mae cyfranogwyr yn teimlo ydyn nhw, beth sydd ar goll neu beth sydd angen ei newid neu ei ychwanegu. Ymdrinnir ag enghraifft fanwl o broses Dilysu Strategaeth Ddrafft yng nghanllaw **Gweithdy Grŵp Llywio**.

Gweithdy Grŵp Bwyd ar gyfer Cymunedau Buddiant

Yn ogystal â gweithio gyda grwpiau o unigolion rydych hefyd yn debygol o fod eisiau dod â grwpiau o sefydliadau at ei gilydd i drafod y materion allweddol sy'n bwysig iddyn nhw. Gallai hyn fod yn grwpiau o fusnesau'r sector bwyd lleol er enghraifft. Gallai'r gweithdy gynnwys amrywiaeth o weithgareddau i wneud y mwyaf o gyfranogiad, fel:

- Mapio
- Ymarfer sbectrwm
- Trafodaeth agored
- Siart marc cwestiwn

Isod, ceir enghraifft o fformat gweithdy ar gyfer ymgysylltu â busnesau'r sector bwyd.

Enghraifft o Weithdy Busnes Bwyd Lleol

1. CWESTIWN RHAGARWEINIOL

Wrth i bobl gyrraedd a setlo (Ysgrifennwch ymatebion ar sgwariau 'post-it' a'u hychwanegu at y bwrdd)

Bwyd cynaliadwy yn Lambeth – beth ydych chi'n credu yw'r materion allweddol ar gyfer eich busnes?

2. CROESO A CHYFLWYNIAD

- Croeso a diolch
- Pam mae'r sesiwn yn digwydd / Sut bydd yr allbynnau'n cael eu defnyddio / Sut bydd yn gweithio
- Pwy ydych chi / Cwestiwn rhagarweiniol

3. MAPIO BUSNESAU

Lleolwch fusnesau ar fap o Lambeth gyda dotiau gludiog (Ychwanegwch sylwadau ar sgwariau 'post it' gyda saethau)

- Ble mae eich prif gyflenwyr?
- Pa gyflenwyr sydd o fewn Lambeth? Marciwch nhw ar y map
- Sut mae'r cynnyrch yn cael ei gludo i'ch busnes ac oddi yno?
- A yw'n bwysig bod y bwyd rydych chi'n ei werthu yn cael ei gynhyrchu'n lleol?
- Pam fod hyn yn bwysig?
- A yw'n hawdd neu'n anodd dod o hyd i gynnyrch lleol?
- Pam?
- Sut gellid mynd i'r afael â'r materion hyn? Beth fyddai'n ei wneud yn haws?

4. SIART LLINELL SBECTRWM

Pa mor hawdd yw hi i chi weithredu fel busnes bwyd cynaliadwy yn Lambeth?

- Safwch ar y llinell rhwng **HAWDD IAWN** a **DDIM YN HAWDD O GWBL**
- Rhannwch mewn parau pam rydych chi'n sefyll lle rydych chi (ffactorau allweddol)
- Trafodwch fel grŵp
- Cofnodwch yr ymatebion i'r drafodaeth ar y siart droi
- Ceisiwch nodi consensws a themâu allweddol neu wahaniaethau barn allweddol

5. SUT GALLAI STRATEGAETH FWYD WEITHIO I CHI?

- Mae Partneriaeth Fwyd a Strategaeth Fwyd yn cael ei sefydlu yn Lambeth.
- Beth ddylai'r strategaeth fwyd gynnwys i gefnogi'ch busnes?
- Beth yw'r materion allweddol i'r strategaeth ganolbwyntio arnyn nhw?
- Beth fyddai'r ffordd orau i'ch busnes gael ei gynrychioli?
- Pa ran allech chi ei chwarae yn natblygiad y bartneriaeth a'r strategaeth?

6. CASGLIADAU A GWERTHUSO

7. GORFFEN